Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

I rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Cynwyd Sant; pennaeth, staff a chorff llywodraethu Ysgol Cynwyd Sant, ymgyngoreion rhagnodedig

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)**
**Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd –**
**Uned Cefnogi'r Gyfarwyddiaeth (EDSU)**
Deialu uniongyrchol / Direct Line: (01656) 643643

Ein cyf / Our ref: Ysgol Cynwyd Sant
Eich cyf / Your ref: Ysgol Cynwyd Sant

**Dyddiad / Date:** 21 Hydref 2022

Annwyl ymgynghorai

**Cynnig i agor darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) drwy sefydlu canolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol (MLD) yn Ysgol Cynwyd Sant.**

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (y Cod), cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ag ymgyngoreion rhagnodedig a phartïon eraill â buddiant rhwng 6 Ionawr 2022 a 17 Chwefror 2022. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgyngoreion am y cynnig uchod a gofyn am eu barn.

Ar 14 Mehefin 2022, adroddwyd canlyniad yr ymgynghoriad i'r Cabinet a chyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori ar wefan y Cyngor yn dilyn hynny. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan amlinellu ymateb yr awdurdod lleol i'r materion a godwyd.

Hefyd ar 14 Mehefin 2022, ar ôl ystyried canlyniad y broses ymgynghori, rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i gyhoeddi rhybudd statudol mewn perthynas â'r cynnig. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 30 Mehefin 2022 am 28 diwrnod a dywedwyd wrth yr ymgyngoreion ei fod ar gael.

Mae'r Cod yn darparu y gallai unrhyw un sy’n dymuno gwneud gwrthwynebiadau i gynnig sefydliad ysgol wneud hynny. I'w hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid gwneud gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u hanfon i'r cynigydd cyn diwedd 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Daeth yr hysbysiad statudol i ben ar 27 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn perthynas â'r cynnig.

Ar 18 Hydref 2022, adroddwyd canlyniad yr hysbysiad statudol i'r Cabinet a gwnaeth y Cabinet benderfynu cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Mae copïau caled a fformatau eraill o adroddiad y cabinet ar gael ar gais gan:


**Swyddog Cyswllt:** Uned Cefnogi'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**Ffôn:** (01656) 643643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad Post:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB


Bydd y cynnig yn arwain at LRC i ddisgyblion gyda MLD yn agor yn Ysgol Cynwyd Sant. Byddai'r LRC ar gyfer uchafswm o 15 o ddisgyblion. Byddai'r LRC yn rhan integredig o'r ysgol prif ffrwd, gan ddarparu amgylchedd priodol lle gall disgyblion ddatblygu a ffynnu o fewn eu grŵp cyfoedion a chael mynediad arferol at gwricwlwm prif ffrwd, pan fo hynny'n briodol. Byddai'r LRC yn darparu cyfleusterau dysgu arbenigol yn yr ysgol ac yn darparu arbenigedd a chyngor i'r holl staff. Daw'r cynnig i rym yn nhymor yr hydref 2022.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- darparu LRC yn Ysgol Cynwyd Sant ar gyfer uchafswm o 15 disgybl â MLD i agor yn nhymor yr hydref 2022;
- sicrhau derbyn disgyblion bob yn dipyn yn nhymor yr hydref 2022 a byddai'r disgyblion a dderbynnir i'r LRC yn cael eu penderfynu trwy banel derbyn;
- cefnogi rhan integredig o'r ysgol brif ffrwd, gan ddarparu amgylchedd priodol lle gall disgyblion ddatblygu a ffynnu o fewn eu grŵp cyfoedion a chael mynediad arferol at gwricwlwm prif ffrwd, pan fo hynny'n briodol; a
- darparu cyfleusterau dysgu arbenigol yn yr ysgol a darparu arbenigedd a chyngor i bob aelod o staff.

Dyma'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a amlinellir yn y Cod:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Dywed Estyn, 'Yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, nid oes gan Estyn amheuon ynghylch BCBC yn sefydlu darpariaeth dosbarth adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg newydd i ddysgwyr â MLD yn Ysgol Cynwyd Sant. Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. '

Archwiliodd Estyn Ysgol Cynwyd Sant yn 2016 gan farnu bod perfformiad presennol yr ysgol yn dda a'r rhagolygon am wella yn wych. Yn ein hadroddiad yn 2016 nodwyd bod bron pob athro yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu cyfoethog a sicrhaodd fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn datblygu eu sgiliau dysgu annibynnol yn

llwyddiannus. Roedd safon yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol, ac roedd gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r camau nesaf ar gyfer gwella sgiliau'r disgyblion yn llwyddiannus.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Mae awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig yn gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r gost i gefnogi hyn yn aml yn fwy na'r gyllideb. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan nifer o awdurdodau lleol yn awgrymu bod yr anghenion hyn yn dod yn fwy niferus a'u bod hefyd yn fwy cymhleth.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) wedi mynd ati'n rhagweithiol i ymdrin â hyn drwy gomisiynu adolygiad darpariaeth cynllunio strategol anghenion dysgu ychwanegol yn 2020.

Mae Bwrdd Adolygu Darpariaeth Cynllunio Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi ei sefydlu. Un o'r meysydd sydd wedi ei nodi ar gyfer darpariaeth ychwanegol yw yng Nghyfnod Allweddol 2 i blant â MLD sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae angen wedi'i nodi i agor LRC ar gyfer plant â MLD sy'n mynychu cyfrwng Cymraeg.

Ni ddisgwylir i nifer y disgyblion y rhagweli eu derbyn fod â lefel sylweddol o amrywiaeth a fyddai'n effeithio ar y cynnig.

Bwriedir gwneud gwaith adeiladu ar adeilad segur yn Ysgol Cynwyd Sant, a byddai hyn yn creu'r llety sydd ei angen ar gyfer y ganolfan MLD. Mae hyn yn cael ei ariannu trwy'r grant cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion.

Bydd disgyblion yn cael cludiant ysgol am ddim yn unol â Pholisi Cludiant Cartref i'r Ysgol/Coleg presennol BCBC. Darperir cludiant ysgol am ddim yn y fwrdeistref sirol ar hyn o bryd ar gyfer pellteroedd cerdded sy'n fwy na 1.5 milltir ar y llwybrau cerdded sydd ar gael ar gyfer disgyblion oed meithrin ac am bellteroedd cerdded dros 2 filltir ar y llwybrau cerdded sydd ar gael i ddisgyblion cynradd. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisi trafnidiaeth ar gyfer disgyblion sy'n mynychu LRC.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i weithredu cynlluniau i dyfu'r Gymraeg yn strategol a, gyda chynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad sylweddol, ei nod yw cyfrannu'n sylweddol at weledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru o fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Gellir gweld Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg yr awdurdod lleol (WESP) yn y ddolen ganlynol:

https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/y-gymraeg/

https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/welsh-language

**Darparu adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Nid oes effaith ar ysgolion eraill gan y bydd hyn yn darparu adnodd ychwanegol i ddisgyblion ag ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan y byddai'r ysgol arfaethedig yn parhau i ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, byddai'r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu, fel ar hyn o bryd, drwy'r cwricwlwm. Mae sawl agwedd ar Ysgol Cynwyd Sant sy'n helpu i greu agwedd gadarnhaol ac yn cynyddu gallu dysgwyr wrth ddefnyddio'r iaith. Mae defnyddio'r Gymraeg ar draws cyfnodau allweddol yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddod yn gwbl ddwyieithog ac yn cyd-fynd â chwricwlwm Cymru - 2022. Ystyrir felly ei bod yn annhebygol y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir ar hyn o bryd gan ddysgwyr yr ysgol.

Byddai'r cyllid ar gyfer yr LRC yn cael ei ddyrannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol brif ffrwd, drwy ddyraniad fformiwla ariannu'r ysgol, gan ddefnyddio cyfuniad o ddyraniad dosbarth a'r elfen uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl (AWPU).

**Ffactorau cyffredinol eraill**

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal fel rhan o'r cam ymgynghori. Daeth yr asesiad i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Mae'r effaith ar oedran yn gadarnhaol, bydd twf mewn disgyblion sydd â MLD sy’n cael cymorth. Hefyd, mae'r effaith ar anabledd yn bositif, bydd twf mewn disgyblion sydd â MLD sy’n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd Asesiad Effaith Cymunedol ei gynnal fel rhan o'r cam ymgynghori a chafodd ei gyhoeddi'n rhan o'r ddogfen ymgynghori. Nid yw'n cael ei ystyried yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Bydd angen staff ychwanegol ar gyfer y ganolfan MLD, fel gyda'r canolfannau eraill o’r fath bydd athro arbenigol yn cael ei gyflogi.

Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg. Daeth i’r casgliad na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir gan ddysgwyr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'n bwysig cydnabod bod y cynnydd mewn lleoedd mewn canolfan MLD yn Ysgol Cynwyd Sant er mwyn sicrhau bod y plant hynny sydd â MLD yn gallu parhau eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, ni ragwelir effeithiau negyddol ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**